POLISI GORFODI IECHYD A DIOGELWCH

wrexham
COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

ADRAN DIOGELU'R CYHOEDD

Polisi Gorfodi Iechyd a Diogelwch
Rhifyn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: 14/03/03
Dyddiad Arolygu: 14/03/04

Cyflwyniad

1.1 Mae'r polisi hwn yn gyson â datganiad polisi gorfodi'r Comisiwn Iechyd a Diogelwch, i sicrhau bod gorfodi cyfraith iechyd a diogelwch yn cael ei arwain gan egwyddorion cymesuredd wrth ddefnyddio'r gyfraith a sicrhau cydymffurfiad; ymagwedd gyson; targedau gweithrediad gorfodi; eglurder o ran sut mae'r adran yn gweithredu a'r hyn ddylai'r rhai y rheoleiddir hwy ei ddisgwyl; ac atebolrwydd am weithrediadau'r Adran.

1.2 Mae'r Adran yn cydnabod ac yn cefnogi'n llawn hawl unigolion a bydd yn sicrhau y digwydd holl weithrediadau gorfodi'n unol â Deddf Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.

1.3 Bydd archwiliadau a gweithrediadau gorfodi eraill yn unol â chodau ymarfer a chyfarwyddyd cymeradwyedig a gyhoeddir gan y Comisiwn Iechyd a Diogelwch (HSE), y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch (HSE) a Phwyllgor Gorfodi'r HSE/Awdurdodau Lleol (HELA).

2.0 **Cymesuredd**

Bydd holl weithrediadau gorfodi'n gymesur â'r risg iechyd a diogelwch a difrifoldeb unrhyw dor-cyfraith, sy'n cynnwys unrhyw niwed go iawn neu bosibl sy'n codi oherwydd tor-cyfraith.

Mae rhai dyletswyddau iechyd a diogelwch yn gyfarwyddol, mae eraill yn gofyn am weithredu cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol. Defnyddiwn yr egwyddor o gymesuredd mewn perthynas â'r ddau fath o ddyletswydd.

Wrth benderfynu ar ystyr 'rhesymol ymarferol', byddwn yn ystyried maint y risg o'i chymharu â'r aberth, boed o ran arian, amser neu ymdrech, sy'n gysylltiedig â'r mesurau er mwyn atal y risg.

Gallai rhai risgiau fod mor ddifrifol na ellir eu caniatáu.

3.0 **Eglurder**

Wrth gyflawni ein gwaith, byddwn yn helpu deiliaid dyletswyddau i ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt a'r hyn gallant ei ddisgwyl gan yr Adran hon.

Ymdrechwn i wahaniaethu rhwng yr hyn y mae'n rhaid i ddeiliaid dyletswyddau ei wneud yn ôl y gyfraith a'r hyn sy'n gyngor neu'n gyfarwyddyd.

4.0 **Atebolrwydd**

Mae'r Adran hon yn atebol i'r cyhoedd am ei weithrediadau. Cynghorir deiliaid dyletswyddau o'r hyn i'w ddisgwyl pan fydd swyddog gorfodi'n galw. Gallai swyddogion archwilio gyflwyno'r daflen WHAT TO EXPECT WHEN A HEALTH AND SAFETY INSPECTOR CALLS i'r rhai maent yn ymweld â hwy.

Os oes gan ddeiliaid dyletswyddau gwyn ynghylch swyddog neu archwiliad, dylent gysylltu â rheolwr y swyddog yn y lle cyntaf ac, os byddant yn dal yn anfodlon, gallant ysgrifennu at y Prif Swyddog Diogelu'r Cyhoedd, Adran Diogelu'r Cyhoedd, Adeiladau'r Goron, Blwch SP 1297, Wrecsam, LL13 8ZE.

Cysondeb

Ymdrechwn i fod yn gyson wrth weithredu. Cymerwn ymagwedd debyg mewn amgylchiadau tebyg er mwyn cael canlyniadau tebyg.

Targedu

Ceisiwn sicrhau y targedir adnoddau at feysydd sy'n peri'r risgiau mwyaf difrifol neu lle na rheolir y peryglon yn dda; ceisiwn sicrhau y canolbwyntir unrhyw weithred ar y deiliaid dyletswyddau sy'n gyfrifol am y risg ac sydd yn y sefyllfa orau i'w rheoli – boed yn gyflogwyr neu'n weithwyr.

5.0 Dulliau Gorfodi

Byddwn yn:

- Archwilio eiddo'n rheolaidd i weld a ydynt yn cydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle, ayb 1974 a chyfarwyddyd a rheoliadau cysylltiedig.
- Ymchwilio i ddamweiniau.
- Rhoi cyngor i gyflogwyr a gweithwyr.
- Hybu ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch.

6.0 Archwiliadau Iechyd a Diogelwch

Gwneir archwiliadau yn ôl eu blaenoriaeth, penderfynir ar amlder ein hymweliadau gan ffactorau megis math a maint yr eiddo, y gwaith a wneir yno a hanes diogelwch yr eiddo.

Ar adegau, fodd bynnag, targedir rhai categorïau penodol fel rhan o ymgyrchoedd gorfodi i godi ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch mewn rhai sectorau penodol.

Bydd unrhyw weithredu a geir o ganlyniad i archwiliad yn unol â'r darn 'Dewisiadau Gorfodi' yn y polisi hwn.

7.0 Ymweliadau Pellach

Lle darganfyddir tor-cyfraith sylweddol, byddwn yn ymweld sawl gwaith er mwyn sicrhau cydymffurfiad. Penderfynir ar amseru'r ail ymweliad gan ddifrifoldeb y tor-cyfraith.

8.0 **Damweiniau/Digwyddiadau**

Ymchwilir i ddamweiniau, afiechydon a digwyddiadau peryglus yr adroddir amdanynt dan RIDDOR (Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus) yn unol â Pholisi Ymchwilio i Ddamweiniau'r Adran hon. I adrodd am ddamweiniau, ewch i www.riddor.gov.uk.

9.0 **Dewisiadau Gorfodi**

Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a thystiolaeth berthnasol, os gwelir bod unigolyn neu sefydliad yn methu â chydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch, byddwn yn ystyried y camau gweithredu canlynol:

(i) Darparu cyngor a chyfarwyddyd
(ii) Cyhoeddi llythyrau cynghorol
(iii) Cyhoeddi hysbysiadau gwahardd
(iv) Cyhoeddi hysbysiadau gwella
(v) Erlyn
(vi) Cyhoeddi rhybudd ffurfiol
(vii) Atafaelu eitemau a sylweddau

9.1 **Gweithredu Anffurfiol**

Defnyddir gweithredu anffurfiol i sicrhau cydymffurfiad â deddfwriaeth fel dewis gorfodi. Bydd y gweithredu hwn yn cynnwys cynnig cyngor, cyhoeddi rhybudd llafar a cheisiadau am weithredu a defnyddio llythyrau cynghorol.

Byddai'n briodol ymchwilio i weithredu anffurfiol yn yr amgylchiadau canlynol:

(i) Ar ôl ystyried y risg i iechyd, amgylchiadau lle na fydd canlyniadau peidio â chydymffurfio'n achosi risg sylweddol i iechyd cyhoeddus.

(ii) Gweithrediadau neu hepgoriadau sy'n ymwneud â materion llai pwysig neu doriadau technegol nad ydynt ddigon difrifol i fynnu gweithredu ffurfiol;

(iii) O hanes blaenorol y busnesau neu, yn achos busnesau newydd, parodrwydd y perchnogion i wneud y gwaith angenrheidiol.

(iv) Digon o hyder yn rheolaeth y busnesau.

(v) Lle nad yw materion yn cyfateb â thorri rheoliadau neu lle na ddilynwyd codau ymarfer diwydiannau.

Pan ddefnyddir ymagwedd anffurfiol, anfonir gohebiaeth ysgrifenedig at y perchennog a gwneir gwahaniaeth glir rhwng gofynion cyfreithiol a materion o arfer da; cadarnheir unrhyw gyngor llafar yn ysgrifenedig.

9.2 **Gweithredu Ffurfiol**

Mewn rhai amgylchiadau, bydd cyhoeddi hysbysiadau statudol yn briodol.

9.3 **Hysbysiadau Gwella** – a roddir dan Adran 21 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle, ayb 1974.
Cyn cyhoeddi'r hysbysiad, bydd y materion canlynol yn cael eu hystyried:-

(i) Methiant gan ddeiliad y ddyletswydd i gydymffurfio â cheisiadau anffurfiol i weithredu neu hanes y deiliad o beidio â chydymffurfio â gorfodaeth anffurfiol.

(ii) Tor-cyfraith sylweddol lle nad yw erlyniad yn briodol.

(iii) Diffyg hyder ym mharodrwydd deiliad y ddyletswydd i gydymffurfio.

(iv) Safonau cyffredinol gwael ag ychydig iawn o ymwybyddiaeth o ofynion statudol ymysg y rheolwyr.

(v) Canlyniadau peidio â chydymffurfio'n peryglu iechyd a diogelwch o bosibl.

(vi) Bydd angen gweithredu'n effeithiol cyn gynted â phosibl i adfer amodau sy'n ddifrifol hyd yn oed os bwriedir erlyn.

Bydd swyddogion sy'n defnyddio hysbysiadau gwella'n trafod y gwaith a therfynau amser realistig ar gyfer cydymffurfio gyda deiliaid y ddyletswydd. Bydd y swyddog yn ystyried syniadau'r deiliad i adfer y tor-cyfraith.

Bydd swyddogion yn esbonio'r hawliau apelio yn erbyn hysbysiadau gwella a darperir y weithdrefn apelio'n ysgrifenedig. Gwneir apeliadau i dribiwnlys cyflogaeth.

Bydd swyddogion yn ystyried pob cais ysgrifenedig rhesymol am estyn amser hysbysiadau.

9.4 **Hysbysiadau Gwahardd**

Lle mae gweithgaredd yn cynnwys risg o anaf personol difrifol, gallai swyddog iechyd amgylcheddol gyhoeddi hysbysiad gwahardd i wahardd y gweithgaredd ar unwaith neu ar ôl cyfnod penodol o amser ac atal ei ailgychwyn hyd nes y gweithredir i adfer y sefyllfa.

Bydd swyddogion sy'n cyhoeddi hysbysiadau gwahardd yn trafod y gwaith i'w gyflawni gyda deiliad y ddyletswydd. Bydd y swyddog yn ystyried unrhyw syniadau eraill a gyflwynir i adfer y sefyllfa.

Bydd swyddogion yn esbonio'r hawliau apelio yn erbyn hysbysiadau gwahardd, gan gynnwys y ffaith nad yw hysbysiad yn cael ei ohirio wrth aros am apêl.

Bydd y swyddog yn monitro cydymffurfiad â'r hysbysiad gwahardd.

Hysbysiad o Feddiannu a Chadw

Bydd swyddogion yn defnyddio pwerau i feddiannu a chadw gwrthrychau neu sylweddau lle mae sail resymol dros amau bod gwrthrych neu sylwedd yn achosi perygl neu anaf personol difrifol.

9.5 **Achos Cyfreithiol**

Byddwn yn ystyried cychwyn achos cyfreithiol lle ceir tystiolaeth dderbyniadwy, sylweddol a dibynadwy bod cyflogwr, unigolyn hunangyflogedig neu unigolyn wedi cyflawni trosedd, lle bo gobaith realistig o gollfarn a lle byddai erlyniad o fudd i'r cyhoedd.

Yn amodol ar yr uchod, mae'r canlynol yn amgylchiadau a allai fynnu achos cyfreithiol neu argymell achos cyfreithiol:

i) Marwolaeth oherwydd torri cyfraith;
ii) Difrifoldeb trosedd honedig, yn ogystal â difrifoldeb unrhyw niwed go iawn neu bosibl neu os yw cefndir ac agwedd y troseddwr yn mynnu hynny:
iii) Anwybyddwyd gofynion iechyd a diogelwch yn fwriadol;
iv) Torrwyd y gyfraith sawl gwaith sy'n arwain at risg sylweddol neu gydymffurfiad gyson wael a sylweddol;
v) Gwnaed gwaith heb gydymffurfio â thrwydded neu achos diogelwch priodol;
vi) Gwelir bod safon rheoli iechyd a diogelwch deiliad dyletswydd yn llawer is na'r hyn a ddisgwylir gan gyfraith iechyd a diogelwch a bod risg sylweddol yn bodoli felly;
vii) Methwyd â chydymffurfio â hysbysiad gwella neu wahardd neu torrwyd rhybudd ffurfiol sawl tro;
viii) Rhoddwyd gwybodaeth ffug yn bwrpasol neu bu bwriad i dwyllo mewn perthynas â mater sy'n arwain at risg sylweddol;
ix) Rhwystrwyd swyddogion yn fwriadol wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau yn ôl y gyfraith.

Byddwn yn ystyried achos cyfreithiol neu'n ystyried argymell achos lle bod un neu fwy o'r amgylchiadau canlynol yn gymwys:

a) Mae'n briodol fel ffordd o dynnu sylw cyffredinol at yr angen i gydymffurfio â'r gyfraith a chadw at safonau sy'n ofynnol dan y gyfraith, yn enwedig lle byddai disgwyl achos cyfreithiol neu lle byddai eraill yn cael eu hatal rhag methiannau tebyg, drwy erlyn troseddwyr.

b) Mae toriad sy'n arwain at risg sylweddol yn parhau, er gwaethaf rhybuddion perthnasol gan weithwyr, eu cynrychiolwyr neu gan eraill sy'n cael eu heffeithio gan y gweithgaredd.

Gellir gweithredu yn erbyn gweithwyr, gan gynnwys rheolwyr, cyfarwyddwyr cwmni, ayb dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle, ayb 1974, Adrannau 7, 8. 36(1) a 37(1). Yn benodol, ystyrir gweithredu yn erbyn cyfarwyddwyr a rheolwyr unigol lle mae'r archwiliad yn datgelu y

cyflawnwyd y drosedd â'u caniatâd neu gefnogaeth neu oherwydd eu hesgeulustod a lle byddai'n briodol gwneud hynny yn unol â'r polisi hwn. Lle'n briodol, byddwn yn ceisio anghymwyso cyfarwyddwyr dan Ddeddf Anghymwyso Cyfarwyddwyr 1986.

Ystyrir achos cyfreithiol yn erbyn gweithiwr os yw'r gweithiwr wedi derbyn rhybuddion blaenorol gan y cwmni neu swyddog gorfodi neu os oedd y drosedd yn doriad amlwg o bolisi a deddfwriaeth y cwmni.

Ystyrir achos cyfreithiol yn erbyn unigolion a anafwyd o ganlyniad i ddamwain yn y gwaith lle gallai toriad difrifol fod wedi achosi risg sylweddol i iechyd a/neu ddiogelwch eraill neu lle mae wedi achosi hynny.

Unwaith i'r swyddog benderfynu bod angen achos cyfreithiol, ystyrir yr achos drwy ddefnyddio'r matrics yn Atodiad 1, sy'n penderfynu a ddylid cychwyn ar achos cyfreithiol. Mae'r matrics yn cwmpasu'r meini prawf a geir yn y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron.

Bydd y swyddog yn trafod ac yn cynghori'r awdurdod arweiniol o fanylion a chanlyniad unrhyw achos cyfreithiol.

9.6 Mathau o Achosion Cyfreithiol

Os yw'r meini prawf tystiolaeth yn Atodiad 1 yn dangos bod gweithredu'n briodol, ystyrir y meini prawf buddiant cyhoeddus yn Atodiad 2. Yn dilyn fydd penderfyniad i **erlyn**, cynnig **rhybudd ffurfiol,** rhoi **rhybudd ysgrifenedig** neu **beidio â gweithredu**.

Bydd yr Adran yn cynnig **rhybudd ffurfiol** yn hytrach nag erlyn er mwyn:

- delio'n gyflym a syml â throseddau llai difrifol;
- gwyro troseddau llai difrifol i ffwrdd o'r llysoedd; a
- gostwng y cyfle o aildroseddu.

Bydd yr Adran yn cynnig rhybudd ffurfiol dim ond lle:

- mae digon o dystiolaeth o euogrwydd y troseddwr i'w gollfarnu'n realistig;
- mae'r troseddwr yn cyfaddef y drosedd; a lle
- mae'r troseddwr yn deall pwysigrwydd rhybudd ffurfiol ac yn rhoi caniatâd call i'r rhybudd.

Lle mae troseddwr yn gwrthod rhybudd ffurfiol, bydd y Cyngor yn erlyn.

Mae'r ddogfen "Formal Cautions" yn rhoi mwy o gyfarwyddyd manwl i swyddogion.

9.7 Cynrychiolaethau i'r Llysoedd

Lle'n briodol, byddwn yn tynnu sylw'r llys at yr holl ffactorau sy'n berthnasol i benderfyniad y llys o ran collfarn briodol wrth erlyn troseddwr.

Mewn achosion digon difrifol lle ceir cyfle, bydd y Cyngor yn ystyried dweud wrth yr ynad bod y drosedd mor ddifrifol ei fod yn ystyried ei hanfon am wrandawiad mewn llys uwch lle gellir gorfodi cosbau uwch.

10.0 Marwolaeth yn y Gweithle

Lle bod torri'r gyfraith yn arwain at farwolaeth yn y gweithle, byddwn yn ystyried pa un a yw amgylchiadau'r achos yn cyfiawnhau cyhuddiad o ddyn-laddiad. Yn yr achosion hyn, byddwn yn cysylltu â'r heddlu, y crwner a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Byddwn yn dilyn y cyfarwyddyd yn 'Work-related deaths: A protocol for liaison'. Os yw'r heddlu neu'r Gwasanaeth Erlyn yn penderfynu peidio ag erlyn, byddwn yn ystyried achos cyfreithiol yn unol â'r ddogfen hon.

11.0 Cyhoeddusrwydd

Mae'r Adran hon yn hysbysu HELA (Gweithrediaeth Iechyd a Diogelwch/ Pwyllgor Gorfodaeth Awdurdodau Lleol) o holl erlyniadau iechyd a diogelwch. Cyhoeddir y wybodaeth hon yn flynyddol: mae gan y tîm iechyd a diogelwch arbenigol gopi o'r ddogfen. Mae'r wybodaeth ar gael ar dudalen hafan LAU/HELA gwefan y Weithrediaeth (www.hse.gov.uk/lau).

Ystyriwn dynnu sylw'r cyfryngau at wybodaeth ffeithiol am gyhuddiadau a wnaed gerbron y llysoedd. Byddwn yn ystyried cyhoeddi unrhyw gollfarn a allai dynnu sylw at yr angen i gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch neu atal rhywun sy'n ystyried anwybyddu eu dyletswyddau dan gyfraith iechyd a diogelwch.

Polisi Gorfodi Iechyd a Diogelwch
Rhifyn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: 14/03/03
Dyddiad Arolygu: 14/03/04

ATODIAD 1 – PRAWF TYSTIOLAETH

Enw a Chyfeiriad ……..

Cyfeiriad Busnes …….

Tor-cyfraith ……..

	I	N	Dd/B
A oes tebygrwydd realistig o gollfarn mewn perthynas â'r drosedd?			
A ymchwiliwyd i'r drosedd heb oedi diangen na ellid ei feio ar y diffynnydd? NEU Mae cymhlethdod y drosedd wedi golygu ymchwiliad hir			
Tystiolaeth A gafwyd y dystiolaeth yn gyfreithlon? A ellir dibynnu arni? A yw unrhyw gyfaddefiad yn ddibynadwy neu a yw'n cael effeithio gan oed, deallusrwydd neu lefel deall y diffynnydd? A yw llys yn debygol o gredu esboniad y diffynnydd yn sgîl y dystiolaeth gyfan? Os bydd hunaniaeth y diffynnydd yn debygol o gael ei chwestiynu, a yw'r dystiolaeth yn ddigon cryf? A yw cefndir tystion yn debygol o wanhau achos yr erlynwyr? A oes pryderon ynghylch cywirdeb neu gredadwyedd tyst? A yw'n cynnwys tystiolaeth ail law? A gydymffurfiwyd â R.I.P.A.? A gydymffurfiwyd â P.A.C.E.? A gydymffurfiwyd â Deddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddau 1996?			
Gweinyddiaeth A anfonwyd (a) unrhyw hysbysiadau statudol a (b) o fewn terfynau amser penodol? A hysbyswyd unrhyw gyrff y llywodraeth e.e. OFT, y mae angen eu hysbysu? Os do, pryd hysbyswyd nhw?			

ATODIAD 2 - PRAWF BUDD CYHOEDDUS

	Ystyriwyd	Dd/B
Ffactorau o Blaid Erlyniad Mae'n debyg y bydd angen erlyniad os (a) bu gan y risg o anaf difrifol/digwyddiad peryglus mewn perthynas â'r drosedd neu ddigwyddiad honedig ganlyniadau difrifol neu ddifrifol posibl (b) yw hanes blaenorol yr unigolyn/y cwmni'n dangos sawl toriad ac nad yw wedi ymateb i orfodaeth neu gyngor blaenorol (c) yw unigolyn/cwmni wedi ymdrin â materion ar sail dameidiog neu ymatebol yn unig (d) nad oes arwydd bod yr unigolyn/y cwmni wedi cymryd neu'n bwriadu cymryd camau i adfer y sefyllfa (e) yw cosb/cyhoeddusrwydd yn debygol o gael effaith ar gwmnïau/unigolion eraill (f) oedd y drosedd yn erbyn unigolyn sy'n gwasanaethu'r cyhoedd (er enghraifft, heddwas neu swyddog carchar neu nyrs) (g) oedd y diffynnydd mewn swydd o awdurdod neu swydd gyfrifol (h) oedd tystiolaeth y rhagfwriadwyd y drosedd (i) oedd dioddefwr y drosedd yn hawdd ei niweidio, yn ofidus o ganlyniad neu wedi dioddef ymosodiad, difrod neu aflonyddwch personol (j) achoswyd y drosedd oherwydd gwahaniaethu yn erbyn tarddiant ethnig neu genedlaethol, rhyw, credau crefyddol, barnau gwleidyddol neu gyfeiriad rhywiol y dioddefwr neu os dangosodd y troseddwr gasineb tuag at y dioddefwr yn seiliedig ar y nodweddion uchod (k) oes gwahaniaeth amlwg rhwng gwir oed ac oed meddwl y diffynnydd a'r dioddefwr neu os oes unrhyw elfen o lwgrwobrwyo (l) yw collfarnau neu rybuddion blaenorol y diffynnydd yn berthnasol i'r drosedd bresennol (m) yw'r drosedd yn helaeth yn yr ardal lle cyflawnwyd hi, er nad yn ddifrifol.		

PRAWF BUDD CYHOEDDUS (parhad)

	Ystyriwyd	Dd/B
Ffactorau yn erbyn Erlyniad Bydd erlyniad yn llai tebygol os (a) oes gan unigolyn agwedd gadarnhaol at ddiogelwch ac wir yn ceisio cydymffurfio â gofynion cyfreithiol (b) cyflawnwyd y drosedd o ganlyniad i gamgymeriad neu gamddealltwriaeth go iawn (rhaid cydbwyso hyn yn erbyn difrifoldeb y drosedd) (c) gellir disgrifio'r golled neu'r niwed fel dibwys ac o ganlyniad i un digwyddiad, yn arbennig os achoswyd ef gan gamfarn (d) cymerwyd camau gan yr unigolyn/y cwmni i atal ailadroddiad (e) bydd gan gosb/cyhoeddusrwydd werth cyfyng (f) cafwyd oedi hir rhwng cyflawni'r drosedd a dyddiad y treial oni bai:- • bod y drosedd yn ddifrifol • yr achoswyd yr oedi'n rhannol gan y diffynnydd • y darganfuwyd y drosedd yn ddiweddar neu os • yw cymhlethdod y drosedd yn golygu y cafwyd ymchwiliad hir (g) bydd erlyniad yn debygol o gael effaith ddrwg ar iechyd corfforol neu feddwl y dioddefwr a gan ystyried difrifoldeb y drosedd bob amser (h) yw'r diffynnydd yn hen neu, ar adeg y drosedd, yn dioddef salwch meddwl neu gorfforol sylweddol, oni bai bod y drosedd yn ddifrifol neu fod posibilrwydd go iawn o'i hailadrodd (i) byddai cyhoeddi manylion yn niweidio ffynonellau gwybodaeth, cysylltiadau rhyngwladol neu ddiogelwch cenedlaethol		

Nid yw penderfynu ar fudd cyhoeddus yn fater syml o ystyried nifer y ffactorau o blaid ac yn erbyn. Rhaid i erlynwyr benderfynu pa mor bwysig yw bob ffactor mewn amgylchiadau bob achos ac wedyn gwneud asesiad cyffredinol.

Wrth ystyried a ddylid erlyn neu beidio, dylid ystyried barn y dioddefwr/teulu'r dioddefwr.

Ar ôl ystyried y pwyntiau uchod, mae asesiad cyffredinol y mater fel a ganlyn:

Erlyn/Rhybudd Ffurfiol/Rhybudd Ysgrifenedig/Dim Gweithredu (dileer fel sy'n briodol)

Swyddog Ymchwilio:
Dyddiad :

Cytuno/Anghytuno, Uwch Swyddog Iechyd Amgylcheddol:
Dyddiad :

Cytuno/Anghytuno, Rheolwr Iechyd Amgylcheddol:
Dyddiad:

RHIF Y DDOGFEN: ENV- HS
RHIFYN:1
DYDDIAD CYHOEDDI: 14 Mawrth 2003
DYDDIAD AROLYGU: 14 Mawrth 2004